tafod elái

MEDI 2016

Rhif 310

Pris 80c

Llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol

Osian Gruffudd a Daniel Jones

Y Band Chroma

Guto Roberts, Medal Wyddoniaeth
(tudalen 5)

Aneirin Karadog

Ennill y Gadair yng Ngŵyl Fawr Aberteifi

Martin Huws, y bardd buddugol, yn cael ei hebrwng i'r llwyfan (Tudalen 11)

Gŵyl Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Penybont a Thaf-Elái

Hydref 8fed ym Mhenybont ar Ogwr

Parti'r Efail

Mabolgampau Clwstwr Garth Olwg

Llongyfarchiadau i blant Ysgol Gynradd Garth Olwg gystadlodd ym mabolgampau'r clwstwr ac am ddod â'r cwpan nôl i Garth Olwg am y pumed blwyddyn yn olynol! Ardderchog!

Prynwch eich copi o
Tafod Elái
£8 am y flwyddyn
Oddi wrth eich dosbarthwyr lleol neu
029 20890040

Tafod Elái
Ar gael drwy e-bost
£8 am y flwyddyn
Cysylltwch â
gol@tafelai.com

Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg

Ffarwelio
Diwrnod ola'n un chwerwfelys i staff a disgyblion Garth Olwg, gan ein bod yn ffarwelio â dwy gymorthwywraig. - Mrs Alyson Matthews sy'n ymddeol ar ôl gweithio gyda ni am ddwy flynedd ar bymtheg, a Miss Rhian Arwel sydd wedi bod gyda ni am flwyddyn. Bydd y plant a'r staff yn gweld eich eisiau chi ac yn drist iawn eich bod yn gadael. Dymunwn bod hwyl i chi ar ddechrau eich siwrne newydd!

Carnifal Blwyddyn 1 & 2
Diolch byth roedd yr haul yn gwenu ar fore carnifal Blwyddyn 1 & 2! Daeth rieni i wylio'r plant yn canu a dawnsio - a hyd yn oed ymuno gyda'r symudiadau! Diolch i bawb am gefnogi'r staff a'r disgyblion, ac am greu gwisgoedd anhygoel!
Ymdrech wych gan bawb!

"Sialens Rio"
Diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu diwrnod noddedig llawn hwyl i'r plant er mwyn codi arian i'r ysgol.

Clwb Nofio Taf

Hwyl gyda'r Urdd

Gŵyl Hwyl Evan James
Treuliodd Adran Chwaraeon RhCT gyfnod yn Ysgol Evan James dros yr wythnos diwethaf yn darparu amryw o weithgareddau chwaraeon ar gyfer disgyblion Meithrin a Derbyn. Roedd y diwrnodau yn rhoi blas i'r plant o'r gweithgareddau mae'r Urdd yn eu cynnig o fewn yr ardal o fis Medi ymlaen. Roedd hi'n braf gweld cymaint o blant yn mwynhau gwneud gweithgareddau chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg.

Diwrnod o Hwyl Llanhari
Ar y 4ydd o Orffennaf, fe wnaeth blwyddyn 5 ysgol Dolau, Llantrisant a Thonyrefail ddod i Ysgol Gyfun Llanhari am ddiwrnod pontio. Fe wnaeth yr Adran Chwaraeon gynnal amrywiol weithgareddau o saethyddiaeth i rygbi tag. Bu'n ddiwrnod llwyddiannus gyda phawb yn mwynhau a chymysgu gyda phlant o ysgolion eraill.

Mabolgampau Clwstwr Garth Olwg
Bu'r haul yn gwenu ar ddiwrnod mabolgampau clwstwr Garth Olwg eleni. Bu pum ysgol gynradd yn cystadlu mewn cystadlaethau trac a maes i geisio ennill tarian mabolgampau clwstwr Garth Olwg 2016. Roedd y gystadleuaeth yn un agos iawn gydag Ysgol Gynradd Garth Olwg yn cipio'r wobr eleni.

Parti Nofio'r Urdd
Fe benderfynom gynnal parti diwedd tymor nofio eleni yng nghlwb nofio Taf.. Roedd hi'n noson lwyddiannus ac yn rhoi pleser mawr i ni fel tîm i weld cymaint o blant yn derbyn tystysgrifau a bathodynnau nofio.

Ysgol Evan Jmaes

Canlyniadau Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni

Dawns Stepio Unigol i Fechgyn dan 16 oed
1af Daniel Calan Jones, Creigiau
Ac ei frawd yn
2il Iestyn Gwyn Jones

Dawns Stepio Unigol i Fechgyn dros 16 oed
1af Osian Gruffydd

Y Fedal Wyddoniaeth a Thechnoleg er Anrhydedd: Guto Roberts o Lantrisant

Côr Pensiynwyr dros 60 oed a dros 20 mewn nifer
1af Côr Hen Nodiant

Deuawd, Triawd neu Bedwarawd Stepio
1af Daniel ac Osian
3ydd Bro Taf - Ioan, Anwen, Branwen ac Elwyn

Parti Alaw Werin hyd at 20 mewn nifer
2il Parti'r Efail

Cadeirio'r Bardd: Aneirin Karadog

Brwydr y Bandiau
1af Chroma

Parti Cerdd Dant hyd at 20 mewn nifer
1af Parti'r Efail

Dawns Stepio i Grŵp
2il Dawnswyr Bro Taf

Tlws Coffa Lois Blake
Cydradd 1af Dawnswyr Nantgarw

Llongyfarchiadau i bawb arall gymerodd ran ac i'r llu o gefnogwyr a fwynhaodd wythnos ardderchog.

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Betsi Griffiths

Esmay dal yn disgleirio!
Llongyfarchiadau mawr iawn i Esmay Walters yn ennill gwobr Seren y Flwyddyn yr Academi LMT adran Iau - ei blwyddyn gyntaf yn yr ystod oedran hon. Enillodd Esmay y wobr hon llynedd yn yr adran "Mini". Cyflwynwyd ei thlws iddi yn y Sioe haf ddydd Sadwrn 16 Gorffennaf yn Theatr y Savoy Tonyrefail. Nid hwn oedd yr unig glod iddi - eisteddodd Esmay arholiad LAMDA (London Academy of Music and Dramatic Art) ychydig o wythnosau yn ôl a'i chanlyniad hi oedd y gorau yn yr holl ystod oedran yr Academi LMT. Yn wir i chi ei marc oedd 96% ac fe wnaeth hi berfformio rhan o'r arholiad i'r gynulleidfa yn berffaith. Fe fydd Esmay yn gweithio gyda S4C yn ystod y gwyliau haf - 'drychwch mas amdani!

Cerddwn Ymlaen!

Gydag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elai yn dod i'r ardal mewn llai na blwyddyn gobeithiwn yn fawr y bydd yr ardal yn troi yn goch, gwyn a gwyrdd!

Dros y blynyddoedd mae'r Urdd wedi ehangu a datblygu'r cyfleoedd i blant a phobol ifanc ar draws Cymru ac mae hyn yn amlwg iawn hefyd yn ein hardal ni.

Erbyn hyn, mae pum aelod o staff yn gweithio o swyddfa'r Urdd yn Aberdâr, a phob un ohonom yn gyn-ddisgyblion o Ysgol Gyfun Rhydfelen! Mae'r sgwrs yn y swyddfa yn aml yn troi at ddyddiau yn yr ysgol ac atgofion pawb!

Mae'r tîm yn falch iawn ac am ddiolch am y cyfleoedd a gawsom ni gyda'r Urdd tra yn yr ysgol yng Wersyll yr Urdd Llangrannog, perfformio yng nghystadleuaeth y gân actol yn Eisteddfod yr Urdd a thrwy gydweithio gyda swyddogion yr ardal. Rydym mor falch ein bod ni fel staff nawr yn gallu cynnig y profiadau hyn yn ôl i blant fel eu bod nhw'n cael yr un profiadau arbennig â gawsom ni. Rydym yn aml yn dweud wrth y bobl ifanc 'Cerddwn ymlaen'!

Os am fwy o wybodaeth am waith yr Urdd yn yr ardal, y clybiau chwaraeon, gweithgareddau wythnosol neu deithiau ewch i wefan www.urdd.cymru/fyardal neu ein tudalennau Facebook a Twitter

Gweler yn y llun, Delyth Southall, Swyddog Datblygu Cymoedd Morgannwg, Stephanie Jenkins, Swyddog Cynorthwyol, Helen Williams-Couch, Swyddog Datblygu Chwaraeon, Jessica Stacey, Swyddog Prosiect Chwaraeon Cynorthwyol ac Amy Outing, Prentis Chwaraeon.

Jessica Stacey



Yn yr Eisteddfod cyhoeddwyd cyfrol o gerddi gan un o gymeriadau'r ardal ac un a fu'n amlwg yn y Babell Lên am flynyddoedd.

Roedd y diweddar Islwyn Jones (Gus i'w ffrindiau) yn barod gyda stori ddigri neu cerdd ar gyfer pob achlysur ac mae ei wraig, Ann, wedi crynhoi casgliad difyr mewn llyfryn £5 gyda'r elw i Elusen Marie Curie.

Dyma sut mae'n disgrifio ei waith fel darlithydd yn goruchwylio myfyrwyr:

Trof i bur oror tref Aberaeron
Am oriau hynaws gyda'r morynion,
Yfaf yn hir uwch rhandir y wendon
Ac oriau o'r ig gaf ger yr eigion;
Ac efallai hoff gyfeillion - yn yr haf
Y gwelaf ychydig o ysgolion!

Tîm Merched y Wawr Tonysguboriau fu'n gweini paned a pice yn yr Eisteddfod

Llantrisant (Tudlen 7)

Lena Esyllt Lai Ping Li, merch Nia a Simon, wyres newydd Geraint a Rhiannon Price, Llantrisant

Llewelyn, mab Catrin Edwards ac Anthony Jones

Pentyrch (Tudlen 5)

Priodas Daniel Rochford a Ffion Williams

Taith i Mametz, Ffrianc

Creigiau (Tudlen 7)

Priodas Elin Williams a George Jones

Noa Samuel, mab bach Rob a Meleri

Pontypridd (Tudlen 8)

Priodas Nerys ac Osian

Brawd bach a brawd mawr, sef Bedwyr Ifan a Llewelyn Mabon, plant Sera a Geraint Wyn Todd. Mae Llew wedi dwlu ar ei frawd bach newydd. Mae'r teulu yn byw yn Rhiwbeina. Mae mamgu a thadcu, sef Dorothy a Barry Todd o Graigwen, wrth eu bodd gyda'r wyron.

Dathlu graddio Llinos Honeybun

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Loreen Williams

Siop y Pentref
Mae siop y pentre wedi ail agor bellach ar ei newydd wedd o dan berchnogion sy'n enedigol o Dde India. Croeso i'r teulu i'r pentref. Mae ganddynt ddwy ford y tu fas i'r siop a chyfle i chi gael coffi bach tra'n eistedd yn yr haul yn sgwrsio!

Pen-blwydd arbennig
Llongyfarchiadau i Judith a John Llewelyn Thomas, Nantcelyn ar ddathlu pen-blwydd arbennig iawn yr Haf yma. Gobeithio fod y dathlu yn Nant Gwrtheyrn wedi bod yn hwyl i'r teulu cyfan.

Y TABERNACL
Triniaeth yn yr ysbyty
Dymuniadau gorau am adferiad buan a llwyr i Varion Gapper sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Priodas
Llongyfarchiadau gwresog i Elin Haf, merch Colin a Nia Williams ar ei phriodas â George Edward Jones yng Nghapel y Tabernacl, ddydd Gwener, Gorffennaf 22ain. Dymunwn bob hapusrwydd i chi eich dau ac i Anni fach.

Elusen
Ar ôl gwylio rhaglen ddirdynnol a gyflwynwyd gan Garry Owen am yr argyfwng yn Lesotho fe ddanfonwyd cyfraniad o £1000 o'r Tabernacl, trwy law Gwenallt Rees, Caerdydd, i leddfu ychydig ar y dioddef yn y wlad. Mae'r eglwys yma yn y Tabernacl wedi cyfeillio ag Eglwys Mohale's Hook yn Lesotho.

Merched y Tabernacl
Cafodd aelodau Merched y Tabernacl wahoddiad i Fore Coffi i gartref Eifiona Hewitt ym Mhenywaun fore Llun, Gorffennaf 4ydd. Daeth nifer dda ynghyd i fwynhau teisennau blasus Eifiona a chael cyfle i sgwrsio a rhoi'r byd yn ei le. Casglwyd £150 ar gyfer Clefyd y Siwgr Cymru. Aeth rhyw dair o'r aelodau mwyaf heini ar daith gerdded o amgylch y pentref er mwyn cyfiawnhau bwyta'r calorïau ar ôl cyrraedd nôl. Diolch Eifion am drefnu bore llwyddiannus iawn. Y cyfarfod nesaf fydd ymweliad â'r Plasdy yng Nghaerdydd i gael te prynhawn a chael ein tywys o gwmpas yr adeilad ar ddydd Mercher, Medi 28ain, gan gyfarfod am 2 o'r gloch.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Medi
Medi 4ydd Oedfa Gymun dan ofal aelodau Pentre'r Eglwys a Thonteg
Medi 11eg Y parchedig Aled Edwards
Medi 18fed Oedfa Deuluol
Medi 25ain Emlyn Davies

PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Marian Wynne

Priodas
Ddydd Sadwrn y 25ain o Fehefin priodwyd Rosanna Stenner ac Ifan Glyn yng nghapel y Tabernacl, Efail Isaf. Magwyd Rosanna yn Creigiau yn ferch i Joy a James Stenner ac mae Ifan yn fab i Joy ac Eifion Glyn, Pentyrch. Cyn brifathro Rosanna, Geraint Rees, oedd yn gweinyddu'r briodas a chynhaliwyd y brecwast mewn marcî ar dir ger cartref ei rhieni ar gyrion Pentre'r Eglwys.

Fe dreuliodd y ddau eu mis mêl yn crwydro arfordir gorllewinol Canada a'r Unol Daleithiau gan ddechrau yn Vancouver a gorffen yn San Francisco. Mae Rosanna yn seicolegydd addysg yn y Rhondda ac Ifan yn gweithio fel Cyfarwyddwr Cymru o Ffederasiwn y Meistri Adeiladu.

Dymunwn bob hapusrwydd a dedwyddwch iddynt yn eu cartref yn Efail Isaf.

Priodas
Ddydd Sadwrn Mehefin 25ain, yng nghapel Ty'n y Coed, Pen y Cae ger Ystradgynlais mewn gwasanaeth hwyliog dan ofal y gweinidog Gareth Hopkin, priodwyd Daniel Rochford a Ffion Williams. Y gweision oedd Dai, Dan a Rhod a'r morwynion oedd Nia, Lizzy, Charlotte, Lowri, Mali ac Efa. Yn ystod y gwasanaeth bedyddiwyd mab Dan a Ffi gyda'r un bach yn cyhoeddi taw Mostyn Wiliam Rochford oedd ei enw. Parhawyd gyda'r hwyl a'r sbri yn y parti priodas a gynhaliwyd ym Mrynich ger Aberhonddu. Bu'n ddiwrnod bythgofiadwy i'r teulu a'r holl ffrindiau.

Dymuniadau gorau i'r tri ar gyfer y bennod nesaf yn eu bywydau. (llun tudalen 4)

Taith i Ffrainc
Cafodd Shan a Mike Pickard brofiad arbennig tra ar eu gwyliau yn Ffrainc.
Dyma ddywed Shan.
"Fe aethon ni i ymweld â rhai o safleoedd hanesyddol y Rhyfel Byd Cyntaf gyda ffrindiau o Benybont. Wrth lwc ac yn gwbwl annisgwyl ar ein diwrnod cyntaf yno, fe fuon ni 'n ddigon lwcus i fedru ymuno yn y gwasanaeth coffa yng nghoedwig Mametz – union gan mlynedd o ddechre'r gyflafan. 'Roedd yn wasanaeth arbennig iawn gyda chynrychiolaeth o'r lluoedd arfog, yr Eglwysi o Gymru a Ffrainc, ac fe gychwynnodd Carwyn Jones ei araith gyda chyflwyniad yn Gymraeg, Saesneg, Ffrangeg ac Almaeneg. Roedd emynau, gweddiau a darlleniadau o farddoniaeth yn creu awyrgylch deimladwy iawn ac fe gawsom gyfle i adael torch o flodau ar y gofgolofn hyfryd."

Medal Wyddoniaeth a Thechnoleg

Cyflwynwyd Medal Wyddoniaeth a Thechnoleg Eisteddfod Sir Fynwy a'r Cyffiniau i Guto Roberts, Llantrisant, Rhondda Cynon Taf, am ei gyfraniad hydoes i wyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bu Guto Roberts yn ymwneud gyda Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn yr Eisteddfod Genedlaethol ers 1971, pan drefnwyd y babell gyntaf ar y Maes. Wrth i bresenoldeb Gwyddoniaeth a Thechnoleg yr Eisteddfod ddatblygu a chynyddu dros y blynyddoedd, roedd cynlluniau Guto'n mynd yn fwyfwy uchelgeisiol, gan roi cyfle i genedlaethau o wyddonwyr ifanc i gael eu hysbrydoli gan fodelau , arddangosfeydd a theclynnau gwyddonol o bob math ar y Maes yn flynyddol.

Sicrhaodd Guto fod Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn cael lle cymwys ar y Maes ac yn nhestunau'r Eisteddfod, a bu'n gwasanaethu ar bwyllgor canolog Gwyddoniaeth a Thechnoleg yr Eisteddfod am ugain mlynedd yn ogystal.

Yn wreiddiol o Ben Llŷn, astudiodd Guto ffiseg yn y brifysgol yn Aberystwyth, gan gyd-arwain ymgyrch lwyddiannus i sefydlu neuadd breswyl Gymraeg yn y coleg, a chyda Iolo ap Gwynn a'r diweddar Dyfrig Jones, sefydlodd Gymdeithas Wyddonol Aberystwyth, y gymdeithas wyddonol Gymraeg gyntaf.

O'r coleg aeth i ddysgu Ffiseg ym Mholytechnig Cymru, Pontypridd, ac erbyn ei ymddeoliad yn 2000, roedd yn bennaeth grŵp Ffiseg Prifysgol Morgannwg. Bu hefyd yn Brif Arholwr Safon Uwch Ffiseg Cyd-bwyllgor Addysg Cymru yn y 90au, yn is-gadeirydd pwyllgor gwaith Eisteddfod yr Urdd yn 1991, ac roedd yn un o'r rhai a sefydlodd y fenter iaith yn Rhondda Cynon Taf. Ef oedd cadeirydd cyntaf y fenter a bu'n ymddiriedolwr am dros ugain mlynedd.

Clwb y Dwrlyn
Daeth blwyddyn o weithgareddau amrywiol a diddorol Clwb y Dwrlyn i ben yn y Clwb Rygbi ym Mhentyrch pan ddaeth Ieuan Jones neu "Ieu piano" i ddifyrru'r aelodau.

Unwaith eto rhyfeddwyd at ei fysedd chwim yn dawnsio ar y piano a'r banjo, a'r yodlan (yn Gymraeg!) yn dal i syfrdanu pawb. 'Roedd y jôcs yn llifo a'r aelodau'n morio canu'r hen ffefrynnau o'u hieuenctid. Dyna noson hwyliog o chwerthin iach i gloi'r tymor.

Diolch i Eifion Glyn a'r pwyllgor gweithgar am flwyddyn lwyddiannus arall.

Gwellhad Buan
Dymunwn adferiad buan i Rowland Wynne, Cefn Llan, ar ôl iddo dderbyn llawdriniaeth frys ddydd Iau, wythnos yr Eisteddfod. Braf clywed ei fod gartref.

Ysgol Llanhari (Iluniau tudalen 16)

Colli Rhys Rubery
Testun tristwch mawr yn yr ysgol ac ymysg Teulu estynedig Llanhari fu marwolaeth disgybl o flwyddyn 11 sef Rhys Rubery o Bencoed, ar y 14eg o Orffennaf yn dilyn damwain ffordd. Atgofion melys yn unig sydd gennym o Rhys yma yn Ysgol Llanhari. Roedd yn fachgen ifanc deallus, hapus a hoffus oedd yn ymroi 100% i bob dim. Byddwn yn ei gofio fel arweinydd naturiol oedd yn dalentog mewn sawl maes ac yn un oedd wedi ymrwymo'n llwyr i'r ysgol ac yn arwain trwy esiampl. Roedd Rhys bob amser yn llawn brwdfrydedd, yn gweithio'n ddiwyd ac yn hynod o boblogaidd ymysg ei gyfoedion a'i athrawon. Roedd dyfodol disglair o'i flaen a chyda thristwch mawr y clywsom y newyddion ysgytwol am ei farwolaeth disymwth. Bydd colled enfawr ar ei ôl o fewn cymuned Llanhari. Bu'n aelod blaenllaw o'r gymuned honno ers pum mlynedd ac fe gydymdeimlwn yn ddwys â'i deulu a ffrindiau ar adeg anodd iawn.

Llys Trisant yn fuddugol
Cynhaliwyd mabolgampau'r adran uwchradd eleni ar y 13eg o Orffennaf. Bu'n ddiwrnod hwyliog o gystadlu gyda llys Trisant yn llwyddo i wneud y dwbwl eisteddfodol a mabolgampau yn 2016. Llongyfarchiadau i'r llys buddugol a gwell hwyl i Aran a Hari yn 2017!

Gweithgareddau Chwaraeon yr Urdd
Yn ystod mis Gorffennaf, bu cynrychiolaeth dda o'r disgyblion yn cystadlu ym Mhencampwriaethau Athletau'r Urdd yn Lecwydd ac fe fwynhaodd bechgyn blwyddyn 8 a thim rygbi merched bl7&8 y profiad o gystadlu yng nghystadleuaeth rygbi cyffwrdd yr Urdd yn Aberystwyth. Profiad newydd i nifer ohonynt ond un a fwynahodd pawb yn fawr, gan gynnwys yr hufen iâ yn Aberaeron ar y ffordd adre!

Diolch!
Bu'r disgyblion wrth eu bodd yn dathlu llwyddiant tim pêl droed Cymru ym Mhencampwriaethau Ewrop trwy amrywiol weithgareddau ym mis Gorffennaf. Un o'r uchafbwytniau oedd y fideo arbennig a grewyd gan y disgyblion a staff yn diolch i dîm Cymru ac yn eu llongyfarch ar eu camp. Ewch i wefan *youtube* a chwilio am Ysgol Llanhari#diolch #Ewro 2016 i gael blas arno!

Parti Ffarwelio
Ffarweliwyd yn swyddogol â disgyblion blwyddyn 13 mewn parti yng Ngwesty'r Holiday Inn yng Nghaerdydd ar y cyntaf o Orffennaf. Cafwyd noson hyfryd yn hel atgofion yng nghwmni nifer o staff a diolch yn fawr i'r Prif Swyddogion am drefnu. Dymuniadau gorau i'r holl ddisgyblion wrth iddynt adael Llanhari i ddilyn gyrfaoedd amrywiol neu gyrsiau prifysgol ymhell ac agos.

Parti Ponty
Roeddem yn hynod o falch bod criw o ddisgyblion wedi cael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithdy yn ddiweddar gyda Mei Gwynedd a wedyn cael y cyfle i berfformio yn Parti Ponty. Roedd y disgyblion wrth eu bodd yn cael y cyfle i gyd-gyfansoddi a pherfformio.

Ffair Haf Ffrindiau Llanhari
Roedd y Neuadd chwaraeon dan ei sang ar fore'r ail o Orffennaf a diolch i bwyllgor Ffrindiau Llanhari am drefnu Ffair Haf llwyddiannus arall! Diolchwn i'r rhieni, staff a disgyblion am gefnogi ac yn arbennig i Danny Grehan am gadeirio dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Pob hwyl i'r cadeirydd a'r pwyllgor newydd ym mis Medi.

Taith i Ynys y Barri
Ymwelodd dosbarthiadau Dewi Draenog a Cadi Cwningen ag Adventure Island yn Ynys y Barri i fwynhau'r amrywiaeth o weithgareddau yno a hefyd mwynhau cinio a hufen iâ ar y traeth cyn adeiladu cestyll tywod a mentro i'r môr. Bu'n ddiwrnod hyfryd a'r tywydd yn odidog!

Taith i Sain Ffagan
Cafwyd diwrnod i gofio yn Sain Ffagan ar ddechrau mis Gorffennaf wrth ymweld â gweithdy "Diwrnod Golchi Beti bwt". Dysgwyd sut i olchi dillad gan ddefnyddio'r mangl a'r doli a mentrodd rhai disgyblion i ddefnyddio'r bwrdd sgwrio. Mwynhaodd y plant y cyfle wedyn i grwydro drwy'r tai yn Sain Ffagan ac ymweld â'r ysgol a'r capel. Un o'r uchafbwyntiau oedd ymweld â'r gerddi godidog ac wrth gwrs cael picnic ar y gwair yn yr haul!

Gwyl Hwyl yr Urdd
Cynhaliwyd Gwyl Hwyl chwaraeon i ddisgyblion blwyddyn 5 y clwstwr ar ddechrau mis Gorffennaf. Braf iawn oedd croesawu disgyblion blwyddyn 5 a diolch i rhai o ddisgyblion TGAU Addysg Gorfforol bl10 am gynorthwyo Adran Chwaraeon yr Urdd â'r gweithgareddau. Edrychwn ymlaen at groesawu'r disgyblion nôl yn y flwyddyn academaidd nesaf ar gyfer cyfres o ymweliadau trosglwyddo.

Cyngerdd Haf yr Adran Gerdd
Hyfryd oedd cael y cyfle ar ddechrau mis Gorffennaf i glywed disgyblion sy'n astudio TGAU a Safon Uwch Gyfrannol Cerddoriaeth ynghyd â disgyblion talentog iau yr ysgol yn perfformio yng Nghyngerdd Haf yr Adran Gerdd. Cafwyd gwledd o gerddoriaeth o fyd y sioeau cerdd a'r ffilmiau, o'r llon i'r lleddf. Diolch yn fawr i'r disgyblion, Mr Cai Hywel a'r athrawon cerdd teithiol am y fath wledd!

Penwythnos Preswyl Blwyddyn 9 yng Nglanllyn
Ar benwythnois digon diflas o ran tywydd, teithiodd criw o flwyddyn 9 i Lanllyn i dreulio'rpenwythnos yn mwynhau gwahanol weithgareddau awyr agored y gwersyll. Bu'n benwythnos prysur, llawn hwyl a phrofiadau newydd. Diolch yn fawr i Miss Rowlands a Miss Stansfield am fynd â'r disgyblion i Lanllyn ar ddiwedd blwyddyn brysur.

Ymweld â'r Brifysgol
Ymwelodd disgyblion blwyddyn 12 â Phrifysgol De Cymru ar ddiwedd mis Mehefin i gymryd rhan mewn gweithdai ar fenter ac entrepreneuriaeth. Roedd hwn yn gymorth mawr i'r disgyblion wrth baratoi tuag Her Menter y Fagloriaeth a braf oedd cael y fath ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gynmraeg.

Gwasanaeth Diwedd Tymor
Bu bore olaf y tymor yn gyfle i fyfyrio ac i ddathlu llwyddiannau y flwyddyn. Gwelwyd ambell glip fideo gyda rhai o uchafbwyntiau y flwyddyn, cafwyd darlleniadau pwrpasol a pherffromiadau cerddorol ac fe wobrwyd ymdrechion unigolion mewn gwahanol feysydd ar hyd y flwyddyn. Penderfynwyd ar dri unigolyn i ennill y prif wobrau o'r holl enwebiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn. Llongyfarchiadau i Marged Jones ar ennill y wobr Cymreictod, Heather Hoolahan am y wobr ymdrech academaidd a Brodi Martin am bresenoldeb 100%. Yn ystod amser cinio roedd cyfle i'r holl ddisgyblion â phresenoldeb 100% ers Medi i fwynhau cinio yn Pizza Hut Tonysguboriau. Rydym yn ddiolchgar i'r holl fusnesau lleol am eu nawdd wrth inni wobrwyo y disgyblion. Llongyfarchiadau hefyd i Dylan, Hanna ac Anna o 8F am eu llwyddiant gyda'r Her Darllen ac i 8G am ennill y wobr am y dosbarth â'r llyfrau cyswllt gorau!

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd 2017
Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i'r Noson Gomedi ac yn arbennig i Bethan Roberts am ei gwaith caled yn trefnu'r noson. Codwyd £400 tuag at y gronfa.

Taith gerdded – Dydd Sul, 18 Medi.
Dewch am dro i un o ardaloedd prydferthaf Bro'r Eisteddfod. Taith gerdded o ryw 8 milltir i'w ddilyn gan Bwffe Cyri yn Lakeside (Glanllyn), Gilfach Goch, CF35 6EN. Cwrdd am 3 o'r gloch ym maes parcio Lakeside. Bydd y daith yn cael ei harwain gan Wyn Thomas. Enwau a blaen -dal o £5 i Wyn neu Helen Prosser erbyn Medi 4ydd.

Dilynwch ni ar facebook - https://www.facebook.com/pwyllgortonagilfach/.

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebwyr y mis - Nia Donnelly a Dilwen Davies

Genedigaeth

Croeso cynnes i Llewelyn, mab Catrin Edwards ac Anthony Jones, a gafodd ei eni ar yr 20fed o Orffennaf.

Mae Catrin yn ferch i Mair a Mike Edwards o Parkdale View, Llantrisant, ac Anthony yn fab i Meriel Jones ac yn llysfab i'r Athro David Reynolds, o Cross Inn. Llewelyn yw ŵyr cyntaf y ddau deulu. Yn gyn-ddisgyblion o Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant, ac Ysgol Gyfun Llanhari, mae Catrin ac Anthony nawr yn byw yng Nghaerdydd.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r tri ohonoch chi!

Llongyfarchiadau hefyd i Simon a Nia Li ar enedigaeth eu merch gyntaf Lena Esyllt Lai Ping, yn wyres i Geraint a Rhiannon Price. Ganwyd Lena ar Awst 2il yn pwyso 7pwys 8owns. Dymuniadau gorau i'r tri ohonoch.

Merched Y Wawr Tonysguboriau

Fe fydd ein cyfarfod cyntaf o'r tymor newydd anos Fercher 14eg o Fedi am 7.30 yn Y Pafiliwn Tonysguboriau. Byddwn yn ymaelodi, cael adolygiad o dymor 2015-2016, yn cyflwyno'r rhaglen am y tymor i ddod a chael cyfle i sgwrsio gyda Shirley Williams, De-ddwyrain dros 'baned a chacen. Mae 2016-17 yn mynd i fod yn adeg gyffrous gyda'r mudiad yn dathlu ei 'phen-blwydd' Aur, felly ymunwch â ni. Rydym bob amser yn falch i groesawi cyn aelodau ac aelodau newydd i'r gangen ac mae croeso arbennig i ddysgwyr gan mai gan ddysgwyr sefydlwyd y gangen hon.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r ysgrifenyddes - Eluned Davies-Scott, 01443223828

Grŵp Macmillan Ardal Pontyclun

Gobeithio bydd rhai ohonoch wedi gallu cymryd rhan yn ein taith gerdded ar Fedi 4ydd (os nag yw'n rhy hwyr gallwch gael manylion ar wefan www.macmillan.org.uk/LlantrisantWalk a chofrestru ar y dydd yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant am 10 o'r gloch y bore) Os ydych wedi colli allan ar y cyfle i gerdded y llwybr o Lantrisant i Efail Isaf ac yn ôl gallwch wneud cyfraniad i Macmillan trwy ddod i'n BORE COFFI MAWR ar ddydd Gwener 30ain o Fedi yng Nghlwb Athletig Pontyclun o 11yb. ymlaen - rydym yn enwog am ein dewis o gacennau!

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams

Llongyfarchion Llinos!

Yn ffres wedi mwynhau ei rôl fel morwyn briodas hardd iawn i'w brawd Emyr yn ddiweddar, derbyniodd Llinos Honeybun y newyddion da ei bod wedi graddio gyda B.Sc. 2:1 mewn Ffarmacoleg o Brifysgol Caerfaddon! Yn ogystal enillodd hi wobr am boster gwyddonol gorau'r flwyddyn! Bydd Llinos yn parhau gyda'i hastudiaethau gan astudio am M.Sc. - Gwyddoniaeth Forensic - ym Mhrifysgol Glasgow ym mis Medi. Pob dymuniad da i ti Llinos.

Llongyfarchiadau a'n dymuniadau da hefyd ...

... i Mr Wyn Jones! Bydd Mr Jones yn gadael ei Adran Ddrama yng Nglantâf wedi rhai blynyddoedd o wasanaeth disglair ac yn cychwyn ar bennod newydd yn ei yrfa fel Swyddog Drama yn y Cyd-bwyllgor Addysg yng Nghaerdydd. Bellach bydd Wyn yn gallu dylanwadu ar fywydau disgyblion Drama Cymru gyfan! Pob lwc yn dy yrfa newydd.

A mwy o newyddion da!

Ydych chi'n cofio Noa bach ciwt gafodd ei eni ychydig cyn y Nadolig? Wel, cafodd Noa Samuel, mab bach Rob a Meleri, ei fedyddio ar y degfed o Orffennaf yn Eglwys Sant Catwg, Pentyrch gan y Parchedig Michael John, gyda dathliad i ddilyn yng Ngwinllan Llanerch. Pob bendith a diolch am y llun!

Priodas Elin a George

Ddydd Gwener 22ain Gorffennaf cynhaliwyd priodas Elin Haf, merch Nia a Colin Williams, Y Creigiau a George, mab Sylvia a Martin Jones, Tonteg. Arweiniodd Geraint Rees wasanaeth cynnes a chartrefol yng Nghapel y Tabernacl, Yr Efail Isaf. Cafwyd darlleniadau gan Hannah Jones a Ryan Chappell a'r gyfeilyddes oedd Siân Elin Jones.

Phillip Breeze a Philip May oedd y ddau was, Siân Morris, Amy Alan, Anni Jones ac Alice Capon y morynion; Morgan Rhys Williams, James Jones a Christian Capon y tri macwy a'r delynores oedd Katherine Rees.

Gorymdeithiodd y gwesteion mewn heulwen godidog i Gastell Hensol ble cynhaliwyd y neithior. Paris am dridie oedd lleoliad y mis mêl a dymuna'r pâr ifanc ddiolch i bawb am eu dymuniadau da ac am bob caredigrwydd tuag atynt.

Ffarwelio

Fel y gŵyr y rhan fwyaf o ddarllenwyr y golofn hon - araf iawn yw eich gohebydd i nodi'r 'newyddion'! Cefais f'atgoffa o hynny ym mhafiliwn yr Eisteddfod yn y Fenni! Cyfeillion da, darllenwyr selog o'r Tafod wedi gadael Creigiau ers ymhell dros flwyddyn ac wedi ymgartrefu yn hapus iawn yn Nhreganna, Caerdydd! Diolch Mr Ian Hughes a Jane a'r bechgyn, Rhodri a Rhydian am eich cyfeillgarwch a'ch cefnogaeth tra'n byw yn y Creigiau a phob hapusrwydd i chi yn eich cartref newydd! Cadwch mewn cysylltiad!

Cydymdeimlad

Yn greulon iawn, fe gollwyd Margaret Ellis Owen ar yr ugeinfed o fis Gorffennaf. Merch hynaws, dawel a chadarn oedd Margaret, gwraig Arwel a Mam Rhodri, Rebecca, Catrin a Sara. I deulu fferm Berthlwyd, rhwng Nelson a Threharris y ganed Margaret yn un o bedwar o blant. Ei thad yn bencampwr treialon cwn defaid. Ym mhrifysgol Aberystwyth y cyfarfu Margaret ag Arwel ac fe'u priodwyd ym 1968. Yn gynnar fe wnaethon nhw eu cartref yma yn y Creigiau gan adeiladu cylch mawr a thriw o ffrindiau. Athrawes Saeneg a Hanes oedd Margaret, a Mam arbennig i'w phedwar o blant ac wyth o wyrion. Gwelir ei cholli yn fawr. Cynhaliwyd angladd hynod urddasol ym Methlehem, Gwaelod y Garth - ei chapel - ac fe wasanaethwyd yn dyner gan y Parch. Ddr. R. Alun Evans a'r Parch. Euros Miles, perthynas i Margaret. Yn meddwl amdanoch.

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Joan Evans a'r bechgyn. Bu farw Glan wedi brwydr ddewr ym mis Mehefin. Cymeriad a hanner a diolch i Gary am ei deyrnged gynnes i Glan.

Ganwyd Glan yn un o dri o blant ym Mrynaman Isaf. Felly roedd e'n un o'r Lower Japs (yr Upper Japs oedd y bechgyn oedd yn byw ym Mrynaman Uchaf). Aeth i Ysgol y Glyn ac Ysgol Ramadeg Ystalyfera ac yna astudio i fod yn athro yng Ngholeg Hyffroddi Abertawe. Bu'n athro yn Esssex am gyfnod cyn dychwelyd i Gaerdydd i ddysgu yn Ysgol Gynradd Sain Tathan ac yna bu'n brifathro un o ysgolion cynradd Llanilltud Fawr.

Roedd yn olffwr llaw chwith o fri ac yn aelod o Glwb Golff Creigiau ond yn bwysicach byth roedd yn un o aelodau cyntaf y Y.O.B.S. (Ystalyfera Old Boys Society). Roedd Glan yn un o gymeriadau bywyd a bydd y teulu a'r gymuned yn gweld ei golli. Cydymdeimlwn a'i wraig, Joan, a'r tri mab Andrew, Richard a Robert a'u teuluoedd.

Campau

Llongyfarchiadau i Tomi Booth a Gruff Morgan o Feisgyn, sydd wedi cael eu dewis i chwarae pêl-droed o dan 13 dros RhCT y tymor nesaf. Bu dau aelod arall o deulu'r Morgan yn brysur dros yr haf - fe lwyddodd Mark a Rhys i gerdded tri chopa Cymru. Fe ddechreuon nhw yn gynnar iawn am gopa'r Wyddfa, yna ymlaen i Gadair Idris a gorffen y dydd ar ben Penyfan.

Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) **:**

Mis Medi 2016:
4 – Oedfa gymun dan arweiniad y Parchedig Hywel Wyn Richards
11 – Oedfa Ardal
18 – Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards
25 – Cwrdd Diolchgarwch yr Ysgol Sul

Mis Hydref 2016:
2 – Oedfa gymun dan arweiniad y Parchedig Dafydd Andrew Jones
9 – Oedfa dan ofal Sioned Wyn
16 - Oedfa dan ofal Rhys ab Owen
23 – Oedfa dan ofal y Parchedig Dafydd Owen
30 - Oedfa dan ofal y Parchedig R Alun Evans

"...edrych ar y morgrugyn; astudia ei ffyrdd, a dysga sut i fod yn ddoeth.
Does ganddo ddim arweinydd, swyddog, na rheolwr, ac eto mae'n mynd ati i gasglu bwyd yn yr haf, a storio'r hyn sydd arno'i angen adeg y cynhaeaf."
Diarhebion 6, 6-8 [Beibl.net]

Byddai aralleiriad yn fwy perthnasol i ni yma ym Methlehem wedi'r Cwrdd Eglwys a gynhaliwyd ar Sul yr 17eg o Orffennaf 2016 oherwydd bryd hynny bu cefnogaeth unfrydol i gynnig Delwyn Sion i wisgo mantell "Arweinydd" yn ein plith.

Ymfalchiwn a llawenhawn, ond hefyd sylweddolwn mai dechrau'r daith oedd y Sul yma, ac yn sicr ddigon bydd angen cymorth pob un ohonom arno i sicrhau bod yr olwynion yn dal i droi, ac yn symyd i'r cyfeiriad iawn.

Nid gwaith i "un seren" yn unig fydd hyn!

Cynnal eglwys a fydd yn dal ei thir yn wyneb y bygythion fil sydd o'n cwmpas yn ddyddiol; creu balchder o fod yn perthyn i eglwys a fydd yn barod i sefyll yn gadarn dros anghenion cymdeithasol a chymunedol; creu teulu a fydd a'r gallu i drosglwyddo pethau gorau bywyd i genedlaethau'r dyfodol.

Byddwn yn ofalus ohono ef a'r teulu wrth iddynt ymdopi a phennod newydd arall ar eu taith trwy'r hen fyd oriog sydd ohoni.

Dewch yn ôl ar gyfer tymor newydd cyffrous, dewch os nad ydach chi wedi bod o'r blaen, dewch i ail-afael os nad ydach chi wedi gweld eich ffordd yn glir i ddod ers peth amser, dewch hyd yn oed os nad ydych yn siwr pam eich bod yn ystyried dod yn y lle cyntaf!

Fydd yna neb yn holi "pam fod eira yn wyn" ond mae'n argoeli y bydd "dyddiau da" dros ben yn ein disgwyl!

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.gwe-bethlehem.org

Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter) @gwebethlehem.

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Merched y Wawr
Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor newydd nos Iau Medi 8fed am 7.30 yn Festri Capel Sardis. Y cynhyrchydd teledu Branwen Cennard yw'r siaradwraig. Croeso i aelodau hen a newydd. Am fwy o fanylion cysylltwch â'r ysgrifennydd newydd Cerys - 07876758658

Pwyllgor Apêl yr Urdd
Ar ôl hoe dros yr haf fe fydd digwyddiadau i godi arian i Eisteddfod yr Urdd Penybont Taf Elai yn ail gychwyn gyda cwis dan ofal Gareth Blainey. Dewch i Glwb y Bont nos Wener Medi 16eg erbyn 7.30p.m. Roedd y cwis blaenorol yn lwyddiant mawr a gobeithio cawn yr un gefnogaeth y tro yma. Timau o ddim mwy na 4 os yn bosib. Gwobr ariannol i'r tîm buddugol! Am fwy o fanylion cysylltwch â Jayne – 07968438314

Croeso

Pob dymuniad da i Owen a Caroline Williams, Y Barri ar enedigaeth eu plentyn cyntaf. Ganwyd Cadi Rachel ym mis Gorffennaf. Dyma'r ail wyres i Val a Steve Williams, Parc Prospect.

Mae Annie, merch fach Aled (brawd Owen) yn byw yn San Francisco. Mae Owen ac Aled yn gyn-ddisgyblion Pont Sïon Norton ac Ysgol Rhydfelen.

Draw yng Nghanada ganwyd merch fach i Ffion (Griffiths gynt) a Chris Roberts. Mae Caylin Fflur yn chwaer newydd i ddau frawd a dwy chwaer. Esgus ardderchog i Mamgu a Tadcu Pontypridd - Gwen a Gwyn Griffiths, Maesycoed i fynd ar drip dros For yr Iwerydd i weld eu hwyres newydd yn London, Ontario.

Priodas
Llongyfarchiadau i Nerys ac Osian ar eu priodas yn Bryn Eisteddfod, Clynnog Fawr ddydd Sadwrn, Gorffennaf 23ain. Merch Karyl a Chris Mann, Graigwen yw Nerys, ac Osian yn fab i Richard a Lorraine Hughes, Nebo. Y Prifardd Meirion Macyntyre Huws - wncwl Osian - oedd yn arwain y seremoni hyfryd ar dir Gwesty Gwledig Bryn Eisteddfod. Edrychai Nerys yn hyfryd mewn ffrog brydferth lliw hufen ac roedd y morwynion, Abbie Thompson, Bethan Jones, Ffion Breese, Ffion Rees a Stephanie Harris, hwythau mewn gwisgoedd pinc. Y morwynion bach oedd Gwenlli Angharad Thomas, Nanw Macintyre Huws a Sofia Grace Lewis, hwythau'n gwisgo ffrogau bach del gwyn a phinc. Gruff Arfon, Huw Geraint Ifan ac Owain Emyr Huws, ffrindiau Osian, oedd y tywyswyr. Roedd y dynion yn edrych yn smart iawn yn eu siwtiau brethyn a theiau wedi'u gwneud yn arbennig o frethyn Harris gan ffrind i Karyl. Mwynhaodd y gwesteion dê prynhawn a mochyn wedi'i rhostio yn hwyrach. Bydd Nerys yn dechrau swydd dysgu newydd yn Dubai ym mis Medi a bydd y pâr yn gadael Cymru ganol mis Awst.

Clwb y Bont
Yma o hyd! Er gwaetha amser anodd iawn ar y Clwb mae ewyllys da a brwdfrydedd yr aelodau yn mynnu cadw'r drysau ar agor. Diolch o galon i bawb a ddangosodd ddiddordeb a chefnogaeth wrth ymweld â stondin Clwb y Bont ym mharti Ponty. Enillydd taflen syniadau ac awgrymiadau am ddyfodol y Clwb oedd Wil Morus Jones a dderbyniodd taleb i'r Trattoria.

Beth am alw heibio am beint neu ddau? Mae'r Clwb ar agor o Nos Fercher i Sadwrn o 7 hyd 11.

Llongyfarchiadau
Yn ddiweddar cyhoeddwyd dyweddïad Osian Llywelyn a Mari Elena Williams. Magwyd Osian yn Graigwen, Pontypridd a Mari yn ardal Rhuthun. Mae'r ddau yn gweithio ac wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd. Newyddion ardderchog.

Penodiad
Llongyfarchiadau i Gareth Luke Thomas, gynt o Graigwen, ar ei benodiad yn Bennaeth Ysgol Johnstown, Sir Benfro. Roedd yn brifathro yn Ysgol Blaen Connin cyn hynny. Mae Gareth yn gyn ddisgybl Ysgol Pont Sïon Norton a Rhydfelen.

Clwb Llyfrau
Y bwriad yw cwrdd am fwyd nos Iau Medi 15fed i ddewis y llyfrau i'w trafod dros y misoedd nesaf. Byddwn yn cwrdd fel arfer unwaith y mis ar y drydedd nos Iau am 8 yng Nghlwb y Bont. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Jayne Rees.

Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail (Lluniau Tudalen 13)

Mellten Ton
Llongyfarchiadau i ddisgyblion Blwyddyn 6 am fod yn enillwyr cyntaf Cymru yng nghystadleuaeth rasio car trydan 'Green Power'. Bu'r disgyblion yn brysur dan oruchwyliaeth Mr Hughes a Mr Holland: yn adeiladu ac yn rasio car trydan. Cafwyd llawer iawn o hwyl yn ystod y broses. Ar y diwrnod mawr profodd 'Mellten Ton' i fod yr un mor gyflym â mellten! Diolch yn fawr i Cymunedau'n Gyntaf Tonyrefail am eu cymorth ariannol i'r prosiect.

Dathlu Pen-blwydd yr Ysgol
Yn ystod y flwyddyn academaidd a aeth heibio, bu disgyblion a staff yr ysgol yn cynnal gweithgareddau i ddathlu pen- blwydd yr ysgol yn 60 mlwydd oed. Ymysg y nifer o ddigwyddiadau roedd wythnos 'Dathlu'r Degawdau' ble y gwisgodd pob dosbarth fel gwahanol ddegawd o'r 50au hyd at y presennol. Fe ymchwiliwyd i hanes yr ysgol ac i fywyd pob dydd yn ystod y gwahanol ddegawdau. Roedd pawb wedi mwynhau'r gweithgareddau yn fawr iawn.

Gwobr Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig
Roedd yr ysgol yn hynod falch i dderbyn gwobr Cylch Hanes Llantrisant gan Fenter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig am ein prosiect 'Ar Gôf a Chadw'. Lluniwyd gwefan arbennig i ddathlu hanes yr ysgol - ddoe a heddiw. Mae'r wefan yn cynnwys cyfweliadau gyda chyn-ddisgyblion a staff yr ysgol gan gynnwys cyfweliad gydag un o ddisgyblion cyntaf yr ysgol sef Mrs Heulwen Jones (Mainwaring gynt). Diolch yn fawr i Mrs Morris a'r arweinwyr digidol am eu holl waith caled yn cywain y wybodaeth a chreu'r wefan.

Croesawu Gwynfor Dafydd
Roedd yn bleser pur i groesawu Gwynfor Dafydd a'i gadair hardd eisteddfodol i'r ysgol yn ddiweddar. Cafwyd cyfle i'w longyfarch ar ei gamp yn ennill cadair Eisteddfod yr Urdd Sir Y Fflint ac i gyflwyno anrheg iddo ar ran yr ysgol. Mae pawb yn YGG Tonyrefail yn hynod falch o'n cyn-ddisgybl, sydd yn ysbrydoliaeth inni gyd.

Addurno Arhosfan Bws
Llongyfarchiadau i dair o ddisgyblion Blwyddyn 6 ar ennill cystadleuaeth i addurno arhosfan bws - a drefnwyd gan gwmni Avant fel rhan o ŵyl 'Tonfest'. Mae cynlluniau Gabrielle Hughes ac asiad o waith Ffion Jones a Holly Edwards i'w gweld yn harddu arosfannau bysiau yn Nhonyrefail.

Ysgol Iach
Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus yn ei hymdrech i ennill trydydd cam statws Ysgolion Iach. Diolch i Mrs Fletcher a Mrs Withey am sicrhau llwyddiant y gweithgareddau yn yr ysgol.

Sioeau Haf
Cynhaliwyd 8 sioe diwedd blwyddyn hynod o lwyddiannus eto eleni i rieni'r gwahanol ddosbarthiadau . Cynhaliwyd sioeau Bl 5 a 6 yn Theatr y Savoy yn Nhonyrefail. Roedd yn brofiad arbennig i'r disgyblion gael perfformio ar lwyfan theatre go iawn. Diolch i berchnogion a staff y Savoy am wneud y profiad yn un bythgofiadwy i'r disgyblion.

Barbiciw Haf
Diolch i'r Gymdeithas Rieni am drefnu Barbiciw i gasglu arian i'r ysgol. Roedd nifer eang o stondinau gan gynnwys un a oedd yn gwerthu cynnyrch a oedd wedi eu tyfu gan Glwb Garddio yn yr ysgol. Roedd y tatws newydd yn flasus iawn!

Mabolgampau
Llwyddwyd i gynnal mabolgampau'r ysgol ar ddiwrnodau heulog. Bu'r Adran Iau a phlant Bl 1 a 2 yn rasio ar gaeau Parc Tyn y Bryn tra roedd y Dosbarthiadau Meithrin a Derbyn wedi cynnal eu mabolgampau ar gae'r ysgol.

'Road To Rio'
Bu disgyblion Blwyddyn 3 a 4 wrthi yn brysur yn cymryd rhan ym mhrosiect Microsoft 'Road to Rio' ac wedi gwella eu sgiliau TGCh tra'n cyflawni'r prosiect.

Ffarwelio â Blwyddyn 6
Pob lwc i ddisgyblion Blwyddyn 6 yn eu hysgol newydd ym mis Medi. Cafwyd nifer o ddigwyddiadau i ffarwelio â'r plant: gwasanaeth yn Eglwys Dewi Sant i holl ddisgyblion Blwyddyn 6 ardal Tonyrefail, sesiwn Bowlio Deg, parti ffarwelio a gwasanaeth yn yr ysgol! Bydd chwith ar eu holau!

CROESAIR



Ar Draws
1. Neidio'n ôl (6)
4. Gafaelgwn i hela (6)
9. Arswydus (7)
10. Pridd (5)
11. Rhoi bywyd i (5)
12. Achosi (7)
13. Anghywirdeb (11)
18. Anesmwytho (7)
20. Gwella (5)
21. Mwstwr (5)
22. Cadach (7)
24. Hynodrwydd (6)
25. Twyllodrus (6)

I Lawr
1. Wedi ei agor (6)
2. Heol fach (3)
3. Garej (7)
5. Y diwrnod cyn ddoe (5)
6. Swyddfa e.e. (7)
7. Grymus (6)
8. Camsyniad (11)
14. Cefnogaeth (7)
15. Duw'r môr (7)
16. Cwm (6)
17. Cyflwr o brofi a dioddef (6)
19. Rhya (5)
23. Iota (3)

Atebion i: Croesair Col, 34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX erbyn 15 Medi 2016

Atebion Gorffennaf

	LL		CH		C		C		B		E	
P	I	T	W		A	D	E	I	L	A	D	U
	F		Y		R		N		O		R	
C	O	R	N	I	C	Y	LL		D	R	Y	W
			N		O		Y		A		CH	
C	O	M	U	N		Y	S	T	U	M	I	O
	FF				FF		G				A	
P	E	CH	A	D	U	R		P	A	N	D	Y
	R		F		R		T		N			
20	I		O		F	E	R	T	I	G	O	L
	A		N		L		A		A		R	
Y	N	F	Y	D	I	O	N		W	T	I	O
	T		DD		N		C		N		G	

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Hydref
i gyrraedd erbyn
22 Medi 2016

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
gol@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.com

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

CLWB Y DWRLYN

Cymru yn Ewro 2016

Catrin Heledd yn holi Ian Gwyn Hughes ac Osian Roberts

8yh nos Iau, 15 Medi
Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch
Manylion: 029 20890040

MERCHED Y WAWR
Cangen y Garth

Noson gyda Adran Bro Taf

Yng Nghapel Tabernacl, Efail Isaf

Ffoniwch am wybodaeth bellach
Manylion: 029 20890770

Catrin Finch
yn cyflwyno
Classical Café
8yh yn Acapela, Pentyrch

30 Medi 2016

Diwrnod Golff

i godi arian i
Eisteddfod yr Urdd 2017

2 Hydref 2016,
Cwrs Golff Creigiau.

Gwybodaeth bellach:
Gwilym Treharne.
Rhif ffôn: 01443 205937
sym: 07950400457
ebost: gwilymtreharne@btinternet.com

Bore Coffi i'r dysgwyr
yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau, bob dydd Gwener am 11 y bore.
Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.

Tymor newydd yn agosáu i Glwb Rygbi Pontypridd

Mae Clwb Rygbi Pontypridd yn edrych ymlaen yn eiddgar at y tymor newydd fydd yn cychwyn ym mis Medi, ac at nifer o sialensiau newydd sydd yn dod yn ei sgil.

Am y tro cyntaf ers pum mlynedd fydd Pontypridd yn camu mewn i'r tymor newydd heb fod yn bencampwyr yr Uwch-Gynghrair yng Nghymru, hynny wedi i Lyn Ebwy ddwyn y goron o'u meddiant yn ffeinal yr ail-gyfle ddiwedd mis Mai.

Roedd hi'n siom aruthrol i ildio mantell y pencampwyr, yn enwedig gan fod Ponty unwaith eto wedi gorffen y tymor ar frig y tabl. Yr her fawr i garfan Pontypridd yn awr fydd ail gipio'r goron, a hynny mewn cynghrair fydd yn edrych yn dra gwahanol i'r gorffennol.

Mae Undeb Rygbi Cymru wedi ail strwythuro'r Uwch-Gynghrair, gan ehangu nifer y clybiau fydd yn cystadlu o ddeuddeg i un-ar-bymtheg. I hwyluso hyn, gadawyd i bedwar clwb esgyn o'r Bencampwriaeth - cyn belled a'u bod yn cwrdd â safonau 'trwydded A' yr Undeb. Y newydd-ddyfodiaid fydd Merthyr, Abertawe, Bargoed a Gogledd Cymru.

Newid sylfaenol arall i'r gyfundrefn fydd hollti'r gynghrair yn ddwy hanner ffordd drwy'r tymor, gyda'r wyth clwb uchaf yn herio ei gilydd eto a'r wyth clwb isaf yr un modd mewn dwy is-gynhrair hyd ddiwedd y tymor. Mae'r sefyllfa yn un cymhleth ond y bwriad o safbwynt yr Undeb fydd codi safon y gystadleuaeth i chwaraewyr ifanc sydd yn datblygu eu talentau.

Y gêm gyntaf i Bontypridd, i'w chwarae ar ddydd Sadwrn y 3ydd o Fedi, fydd oddi cartref yn erbyn Bedwas. Y gêm olaf cyn i'r gynghrair hollti fydd oddi cartref yn erbyn Gogledd Cymru ar y 7fed o Ionawr.

Wrth gwrs fe fydd newid mawr arall ar y gweill o safbwynt Pontypridd gan fod maes Heol Sardis yn cael ei adnewyddu yn llwyr gyda chae synthetig 3G o'r safon uchaf yn cael ei osod. Disgwylir i'r arwyneb newydd fod yn ei le erbyn diwedd Medi neu ddechrau Hydref.

Rhwng y ddwy gêm hynny, ar Sadwrn 20fed o Awst bydd Pontypridd yn chwarae oddi cartref yn erbyn Ystrad Rhondda, gan helpu'r clwb i ddathlu agor eu cartref newydd yn hen dafarn y Gelligaled.

Ddydd Sul yr 28ain o Awst bydd gornest genedlaethol saith bob ochr Fosters yn cael ei chynnal ar Barc yr Arfau, Caerdydd. Gwrthwynebwyr cyntaf Pontypridd fydd Bargoed.

Gyda'r tymor newydd yn brysur agosau, a'r cyffro a'r disgwyliadau ar gynnydd, cadwch mewn cysylltiad â'r holl newyddion o Glwb Pontypridd ar y wefan: www.ponty.net

Ysgol Dolau (lluniau tudalen 16)

Yn ein Cof am byth
Mae ein meddyliau a gweddiau gyda theulu Rhys Rubery. Bydd pawb wnaeth adnabod Rhys yn ei golli'n fawr. Roedd yn fraint i'w adnabod.

Dathliadau Diwedd Flwyddyn
Dymunwn pob hwyl i'n disgyblion blwyddyn 6 wrth iddyn nhw symud i'w ysgolion nesaf – Llanhari, Pencoed ac Y Pant. Dymunwn pob llwyddiant iddyn nhw yn anturiaethau eu dyfodol.

Cafodd pob dosbarth drip ddiwedd blwyddyn gwych gyda'r fan hufen-iâ yn gorffen y flwyddyn gan ddweud diolch i'r plant am eu gwaith caled ac ymddygiad dros y flwyddyn diwethaf. Hoffai pob aelod o staff ddiolch i'r rhieni a disgyblion am eu anrhegion hael ar ddiwedd y tymor. Gwyliau braf!!

Presenoldeb Rhagorol
Roedd 27 o ddisgyblion gyda 100% presenoldeb ar ddiwedd y flwyddyn! Cafodd pob un wobr gydag un enillydd lwcus - Harrison Blackman - yn ennill tabled Samsung Galaxy yn y raffl! Da iawn bawb!

Oliver!
Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion am eu perfformiadau anhygoel yn ein sioe gerdd Oliver eleni! Wnaeth pob aelod o flwyddyn 5 a 6 actio a pherfformio i'r safon uchaf gyda'r corws o blant blwyddyn 3 a 4 yn creu'r awyrgylch a naws arbennig. Gwelom nifer o ser llwyfan y dyfodol! Diolch i'r holl ddisgyblion, staff, rhieni a staff technegol am sioe arbennig unwaith eto!

Ysbrydoliaeth
Ellie O'Connell – cymeriad fach cryf sydd ar ei ffordd i wellhad llwyr! Dymunwn gwellhad fuan i Ellie oddi wrth ei ffrindiau hi o Dolau.

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Roedd Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni yn llwyddiannus dros ben ac mae'n siŵr bod Cymry Cymraeg yr ardal, er prinned eu nifer, a nifer o wirfoddolwyr di-Gymraeg wedi gweithio'n ddygn dros y ddwy flynedd i arlwyo'r wledd.

Dydd Iau (Awst 4ydd) oedd diwrnod 'mawr' gwyddoniaeth yn yr Ŵyl. Eleni roedd digwyddiadau'r diwrnod yn dal cysylltiad gyda dalgylch Tafod Elai. Roedd seremoni cyflwyno'r Fedal Wyddoniaeth a Thechnoleg i Guto Roberts (Llantrisant) i gydnabod oes o wasanaeth am ei ddyfeisgarwch dychmygus yn Swyddog Gwyddoniaeth yr Eisteddfod. Yna roedd achlysur talu teyrnged i ddau o gyn-enillwyr y Fedal a gollwyd yn y flwyddyn ddiwethaf, sef, Elwyn Hughes (Pentyrch gynt) a John Davies (Abertawe).

Yn ddiweddarach dydd Iau, ar stondin Prifysgol Bangor, roedd trafodaeth am le mathemateg a gwyddoniaeth yn addysg a diwylliant Cymru heddiw. Roedd yr achlysur yn gyfle i roi cyhoeddusrwydd i fersiwn Saesneg (Count us in) llyfr poblogaidd a hynod afaelgar Gareth Roberts (Mae pawb yn cyfrif); bu Gareth yn byw ym Mhentyrch ar un adeg. Bellach mae Gareth yn doreithiog ei gynnyrch 'posau' sy'n ymddangos mewn cylchgronau ac ar-lein. Ewch atynt i stormio'ch meddwl. Dyma un sy ar ffurf englyn gan O.M.Lloyd (englynwr penigamp yn ei ddydd),

Afal –wyth o filoedd, a deugain
A deg yna ydoedd;
Ugeinwaith naw o gannoedd;
Solfia, lu, sawl afal oedd?

O bosib, bydd yr ateb wedi'i gladdu yn y rhifyn hwn. Gwell fyth, prynwch y llyfr am yr ateb a llawer trysor arall.

Gŵyl Fawr Aberteif
(llun tudalen 1)

Martin Huws o Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf, enillodd y Gadair yng Ngŵyl Fawr Aberteifi.

Y gofynion oedd cerdd gaeth neu rydd neu gasgliad o gerddi ar y thema Dihangfa ac roedd wyth yn cystadlu.

Dywedodd y beirniad, y Prifardd Cyril Jones: "Roedd hi'n gystadleuaeth wastad, doedd dim un gerdd sâl.

"Chwedl Zelda oedd y bardd mwya byw ei fynegiant a'i ddychymyg. Roedd ei gerddi'n ildio eu cyfoeth gyda phob darlleniad."

Ei gyngor i feirdd oedd: "Darllenwch eich cerddi'n uchel, gwrandewch ar y llinell ac ailwampiwch eich deunydd."

Brodor o Gaerdydd yw Martin oherwydd symudodd ei rieni o Lanelli i'r ddinas ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Aeth i Ysgol Uwchradd Cathays ac mae ei ddyled yn fawr, meddai, i'r athro Cymraeg, Elvet Thomas, a'r athro Ffrangeg, Ted Poole.

Yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd,fe gafodd radd yn y Gymraeg ac ym Mhrifysgol Warwick fe gafodd radd MA mewn Cysylltiadau Diwydiannol.

Rhwng 1970 a 1986 cafodd nifer o swyddi, gan gynnwys gweithiwr dur, gwas sifil a gofalwr yn yr Amgueddfa Werin ac, yn y cyfamser, roedd yn cyfrannu colofn a straeon i'r Faner.

Yn 1988 cafodd Golwg ei sefydlu a Martin oedd un o'r gohebwyr cynta cyn bod yn isolygydd ar bapur y Western Mail. Wedyn roedd yn ymchwilydd i'r Byd ar Bedwar a Week In Week Out cyn bod yn aelod o'r tîm lansiodd wefannau ar-lein BBC Cymru, Cymru'r Byd a Cymru Fyw.

Mae wedi cyhoeddi dwy nofel a chyfrol o straeon byrion. Yn 2007 roedd ei nofel *Mae Heddwch yn Brifo* am brofiadau milwr oedd wedi bod yn Rhyfel y Falklands/ Malvinas yn ail yng Nghystadleuaeth Daniel Owen yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Yn 2014 fe ddaeth yn ail yn y Goron yn Eisteddfod Llambed ac yn drydydd yn yr un gystadleuaeth yn 2015. Hwn yw'r tro cyntaf iddo ennill Cadair Eisteddfodol.

Ysgol Garth Olwg (Llun tudlaen 15)

Mission Discovery
Dyma lythyr gan Ethan Williams o flwyddyn 10 at y Prifathro sy'n sôn am ei brofiad gyda Mission Discovery.

Annwyl Mr Edwards,

Ar ran y 10 disgybl oedd yn cynrychioli'r ysgol yn "King's College" yn Llundain fel rhan o "Mission Discovery" wythnos diwethaf hoffwn i ddiolch i chi am sicrhau'r cyfle i ni fynychu'r wythnos. Cafodd pawb wythnos wych a dwi wir yn teimlo fod pawb wedi dysgu llawer o bethau a fydd yn cael eu trosglwyddo i fywyd ysgol ar draws y 2 flynedd nesaf, wrth i ni ddechrau ein gyrfaoedd yn y chweched dosbarth.

Yn bersonol, dwi'n teimlo mai'r neges fwyaf pwysig y dysgon ni'r wythnos diwethaf oedd pwysigrwydd prydlondeb a dyfalbarhad wrth i ni geisio am ein breuddwydion. Meddai Sarah Murray, Pennaeth EVA, roboteg a systemau criw yn NASA; "To be early is to be on time, to be on time is to be late and to be late is not acceptable," dyfyniad dwi nawr yn bwriadu trosglwyddo i fy mywyd ysgol. Wrth siarad gyda'r gofodwr Dr Michael Foale (sydd yn y llun), dysgodd bawb y pwysigrwydd o ddyfalbarhau wrth i ni glywed am sut gymerodd Michael 3 cais i lwyddo i ddod yn ofodwr, breuddwyd oedd ganddo fo ers iddo fod yn 6 mlwydd oed. Petai gen i ffordd fy hun byddwn i wedi dod â rhai o'r bobl y bu'n siarad yn ôl gyda fi er mwyn iddyn nhw ddarparu eu negeseuon pwysig ac ysbrydoledig i weddill yr ysgol.

Fe weithion ni â phobl o ysgolion lleol fel Porth County, Fitzalen High, Aberdar ac hyd yn oed plant o India. Cysylltiadau rydyn ni'n bwriadau adeiladu a chadw am amser hir.

Er doedd dim un o Garth Olwg yn y grŵp buddugol, fe ddaeth nifer o syniadau gwych o bob un grŵp. e.e. Edrych mewn i allu planhigion i drydarthu yn y gofod, effaith "nano-emulsion" o dan ficro-disgyrchiant ac hyd yn oed os oedd math penodol o facteria yn gallu trwsio concrit yn y gofod. Efallai byddai hi'n ddiddorol i ni fel ysgol lansio prosiect ymchwil ac edrych mewn i rai o'r arbrofion yma ein hunain?

Eto, er bod dim un ohonom ni wedi ennill y gystadleuaeth mae pawb wedi ennill rhywbeth o'r wythnos. Unai uchelgeisiau, cysylltiadau neu ffrindiau newydd, fe ddaeth pawb o'r profiad yn bobl well. Unwaith eto hoffwn i ddiolch i chi ac i Mr Llyr Evans yn enwedig am sicrhau bod y prosiect yma wedi bod yn bosib ac i Mr Rhodri Thomas am ei gyfraniad tra ei fod ef yna gyda ni.

Fe wnâi'n siŵr i annog disgyblion i gymryd mantais o'r cyfle yma'r flwyddyn nesaf.

Diolch unwaith eto ar ran pob un a fynychodd.

Yn gywir
Ethan Williams

Ysgol Evan James

Bu Ysgol Evan James yn dathlu pen-blwydd yn 30 oed. Agorodd yr ysgol yn Medi 1985 gyda 12 o ddisgyblion ar y gofrestr. Dathlodd y plant a staff gan berfformio sioe odidog "Dacw Evan James yn Dwad" yn y Miwni. Martyn Geraint ysgrifennodd y sioe. Perfformiodd y plant y sioe 3 gwaith ac ar y trydydd perfformiad daeth rhai o'r deuddeg o ddisgyblion cyntaf yn ôl i gwrdd â ni!

Bu plant Pentre Bach sef dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn dathlu drwy gynnal parti hwyl ar iard yr ysgol. Perfformiodd y plant gasgliad o ganeuon ar y llwyfan allanol. Bu rhieni, plant a staff yn mwynhau bwydydd o'r stori "Lindysyn Llwglyd Iawn". Daeth fan hufen ia i'r iard i ategu at y dathliadau.

Da iawn i'r plant sy heb golli diwrnod o ysgol eleni – aethon nhw i SubZero i fwynhau hufen ia blasus!

Roedd rhaid dweud hwyl fawr a phob lwc i 2 aelod o staff. Mae Deborah Jones wedi bod yn gynorthwywraig yn yr ysgol am 8 blynedd ac yn ein gadael er mwyn gwneud cwrs TAR yn y brifysgol. Pob lwc i ti ar dy yrfa newydd. Fe fyddi yn athrawes ragorol!

Mae Angharad Evans yn ein gadael ar ôl 2 flynedd er mwyn bod yn gynorthwywraig yn Ysgol Nant Caerau, Caerdydd. Pob lwc i ti a byddwn yn gweld dy eisiau, yn enwedig amser Nadolig ar y piano!

Llongyfarchiadau mawr i Kelly Davies a'i phartner Daniel ar enedigaeth eu merch fach Eva. Daeth Eva i ymweld â phlant a staff yr ysgol pan oedd hi ond yn bythefnos oed - rhieni campus iawn!

Cafodd yr Arweinwyr Digidol fore buddiol iawn yn Siop Apple yng Nghaerdydd. Cawsant y cyfle i arbrofi gyda'r App Garej Band a dysgu am y cwmni Apple. Efallai yn y dyfodol bydd ein harweinwyr digidol yn gweithio i Apple yng Nghalifornia!

Daeth yr Urdd i gynnal bore o gemau Olympaidd gyda'r Meithrin a Derbyn. Roedd y plant yn barod am Rio erbyn diwedd y bore!

Llongyfarchiadau i dîm rasio Fflamau'r Ddraig am ennill y wobr gyntaf am y car gwyrddaf mewn diwrnod gwibio ym Meisgyn ar ddydd Sadwrn yr ail o Orffennaf. Roedd sawl un yn dangos potensial i fod yn Lewis Hamilton y dyfodol.

Ffarwel i'n disgyblion Blwyddyn 6. Dymunwn pob dymuniad da a llwyddiant i bob un yn yr ysgol Uwchradd.

Wrth baratoi i ffarwelio gyda'r ysgol gynradd, aeth disgyblion blwyddyn chwech ati i drefnu digwyddiad arbennig fel arwydd o'u gwerthfawrogiad o'r cyfleoedd a'r profiadau a dderbyniwyd yn ysgol Evan James. Aeth y plant ati i gynnal te parti i godi arian tuag at elusen Syndrom Downs. Daeth cynrychiolydd o'r elusen i wasanaeth ffarwelio blwyddyn chwech i dderbyn siec o £350.

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant (Lluniau tudalen 13)

Gweithdai Gwyddoniaeth
Ar Fehefin yr 28ain a'r 29ain, fe gafodd pawb gyfle i gymryd rhan mewn gweithdai gwyddoniaeth dan ofal cwmni "*Mad Science*". Yn ystod y sesiynau ar gemeg a sut mae rocedi'n gweithio, dangosodd y plant lawer iawn o frwdfrydedd a gwelwyd sawl Tim Peake yn eu mysg!

Y Faner Werdd a'r Pysgod Melyn!
Llongyfarchiadau i Miss Jones a'r criw o blant fu'n gweithio'n galed er mwyn ennill y Faner Werdd i'r ysgol unwaith eto.

Hefyd ar ddydd Mercher y 7fed o Orffennaf, fe aeth aelodau'r Cyngor Ysgol o amgylch yr ardal leol gan beintio pysgod melyn ger pob draen. Pwrpas y dasg oedd i godi ymwybyddiaeth o beryglon taflu cemegion i lawr draenau cyhoeddus. Diolch yn fawr i Tim Wort (Cadwch Gymru'n Daclus) a Mrs Margaret Griffiths (ein cynghorwraig leol) am eu cymorth.

Tripiau
Trefnwyd sawl trip ar gyfer y disgyblion tua diwedd tymor yr Haf – bu'r gwahanol adrannau'n ymweld â Jazzy Jungle, Ogofeydd Dan yr Ogof, Sŵ Bryste a'r Senedd ym Mae Caerdydd. Cafodd pawb amser wrth eu boddau.

Anfonwch fy ffrind i'r ysgol
Bu disgyblion CA2 wrthi'n paratoi bagiau ysgol bychain fel rhan o'r ymgyrch "*Send my friend to school*". Mae'r ymgyrch yn tynnu sylw at yr holl blant yn y byd, sydd ddim yn mynychu'r ysgol.

"Y Ffordd i Rio"
Yn ystod yr wythnosau diwethaf, bu disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 yn cymryd rhan mewn prosiect technoleg gwybodaeth arbennig, yn seiliedig ar y Gemau Olympaidd. Fe gafodd y disgyblion gyfle i ddefnyddio sgrîn werdd wrth baratoi bwletinau newyddion, yn seiliedig ar y digwyddiadau cyffrous yn Rio.

Sioeau
Roedd diwedd tymor yr Haf yn amser prysur iawn i holl blant a staff yr ysgol, wrth iddynt baratoi a pherfformio'u sioeau haf. Cafwyd perfformiadau hyfryd o'u hoff ganeuon gan y plant lleiaf, sioe'n seiliedig ar Arch Arwyr gan CA1 a pherfformiad gwych o "Annie" gan CA2. Llongyfarchiadau i bawb am eu holl waith caled.

Tenis
Bu criw o'r ysgol yn cystadlu yn nhwrnameint tenis Cymru yng Nghanolfan David Lloyd yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Cafwyd cynrychiolaeth yn y categori Blynyddoedd 5 a 6 yn ogystal â'r categori Blynyddoedd 3 a 4. Fe wnaeth y ddau dîm yn wych ond llwyddodd tîm Blynyddoedd 3 a 4 i ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Mabolgampau
Cafodd pawb gyfle i gystadlu ym mabolgampau'r ysgol ddiwedd tymor hefyd, gydag aelodau o dimau Illtyd, Gwynno a Dyfodwg yn cystadlu'n frwd er mwyn ennill medalau.

Nyrs
Fe ddaeth Mrs A Gerry, nyrs yr ysgol i mewn i siarad gyda disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 yn ddiweddar, er mwyn sôn am dyfu i fyny.

Dymuniadau gorau
Hoffai'r staff a'r disgyblion anfon eu dymuniadau gorau i Mr Gethin Jones, cyn-ddirprwy bennaeth yr ysgol, ar ei swydd newydd fel pennaeth yn Sir Ddinbych. Diolch yn fawr iddo am ei gyfraniad tuag at fywyd YGGG Llantrisant ers ymuno â ni ym mis Medi 2012.

Ysgol Pont-Sion-Norton

Celf
Aeth Millie a Caitlyn i ymweld â'u gwaith celf yn Nhrallwng. Mae eu lluniau buddugol, yn ogystal â lluniau eraill gan yr Adran Iau, wedi cael eu defnyddio i greu posteri mawr i addurno'r safle adeiladu. Dyma ychwanegiad lliwgar i'r ardal!

Parti Ponty
Bu'r côr yn brysur iawn ym Mharti Ponty. Roeddynt wedi canu yn y dre, y bandstand a chanu gyda Bethan Nia. Perfformiadau gwych! Diolch i'r staff wnaeth eu paratoi.

Côr
Canodd y côr yng Nghapel Sardis hefyd yn ddiweddar. Roedd y gyngerdd i godi arian ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2017. Diolch i bawb am y gefnogaeth.

Miwni
Cafwyd cyngerdd gwych gan blant yr ysgol cyn yr Haf. Roedd y côr, dawnsio disgo, cân actol ac unigolion wedi darparu adloniant arbennig!

Mabolgampau clwstwr
Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gymryd rhan a staff y clwb Athletau am eu paratoi.

Disney
Mae'r côr wedi derbyn gwahoddiad i berfformio yn Euro Disney. Pob lwc nawr gyda'r codi arian a'r paratoadau.

Ymddeol
Pob dymuniad da i Mr Thomas, ein gofalwr, sy'n ymddeol ar ôl 10 mlynedd. Diolch am yr holl waith fel gofalwr, cyfeilydd a ffrind i bawb.

Cantref
Cafwyd trip llawn hwyl wrth i flynyddoedd 1 a 2 ymweld â Cantref ar gyfer eu trip haf. (2 lun)

Bake off
Bu Dosbarth yr Albion yn creu cacen fwd ac ysgrifennu rysait fel gwaith cartref. Logan Evans oedd yn fuddugol- llongyfarchiadau!

Ysgol Evan James

Sioe dathlu penblwydd yn 30 oed

Mabolgampau'r Urdd

Parti plant Pentre Bach

Tîm rasio Fflamau'r Ddraig enillodd y wobr gyntaf am y car gwyrddaf

Y Faner Werdd a'r Pysgod Melyn

Ysgol Pont Sion Norton

Logan Evans yn fuddugol yn y Bake Off

Ymweliad â Cantref

Poster Millie a Caitlyn

Ysgol Llantrisant (Tudalen 12)

Y Sioe Haf

Mabolgampau Adran Iau

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Gŵyl y Garth
O'r 11eg i'r 15fed o Orffennaf cynhaliwyd Gŵyl y Garth yn yr ysgol. Bwriad yr wythnos oedd i ddathlu ein Cymreictod drwy gael hwyl. Roedd llu o weithgareddau yn ystod yr wythnos gan gynnwys sesiynau bocsio, yoga, tynnu cartwnau a sgiliau syrcas. Daeth Mei Gwynedd i'r ysgol er mwyn rhoi cymorth i'r disgyblion i gyfansoddi cân a chafodd y disgyblion y cyfle i berfformio'r gân gyda Mei ym Mharti Ponty.

Cafodd y disgyblion gyfle i gymryd rhan mewn gweithdy Ffotograffiaeth gyda'r Adran Gelf. Rhannwyd sawl techneg a phroses gyda'r disgyblion i allu mynd ati i arbrofi a gwella sgiliau ffotograffiaeth dros y gwyliau!

Dywedodd rhai disgyblion:
"Ges i amser arbennig, dysgais sgiliau defnyddiol i fy helpu yn y dyfodol."
"Caru Celf! Roedd y peintio gyda golau yn brofiad unigryw!"
"Roedd defnyddio'r ffôn symudol mewn ffordd greadigol yn dangos pa mor gyflym mae'r byd technolegol yn symud! Grêt! Edrych ymlaen at astudio Ffotograffiaeth fel TGAU!"

Daeth Rhys Patchell i ymweld â'r ysgol a bu'r disgyblion yn holi cwestiynau iddo. Roedd yn ddiddorol tu hwnt i glywed am ei yrfa gyda'r Gleision a'i hanesion yn Seland Newydd yn chwarae dros Gymru.

Cynhaliwyd Bake Off Garth Olwg yn ystod yr ŵyl a bu dros 100 o ddisgyblion yn brysur yn y gegin yn paratoi eu cacennau. Llongyfarchiadau i Olivia Leyshon o flwyddyn 7 am ennill gyda chacen wych oedd yn dathlu Cymreictod gyda dafad a daffodil.

Bu'r Mabolgampau yng nghanol Gŵyl y Garth a chafwyd diwrnod braf iawn yn Leckwith. Dyma oedd canlyniadau terfynol y diwrnod:

1af –	Owain	477 pwynt
2ail -	Iolo	421 pwynt
3ydd -	Hywel	404 pwynt
4ydd -	Llywelyn	346 pwynt
5ed -	Gruffydd	333 pwynt
6ed -	Dafydd	308 pwynt

Y pencampwyr oedd Carwyn Salmon a Lara Watts o flwyddyn 7; Garyn Newton a Lilly Wheeler Sexton o flwyddyn 8; Daniel John a Sadie Breen a Holly James o flwyddyn 9 a Cian Owen a Clara Nuthall o flwyddyn 10.

Torrwyd sawl record hefyd yn ystod y diwrnod. Llwyddodd bechgyn blwyddyn 7 a 9 i dorri record ras gyfnewid yr ysgol yn ogystal â Daniel John bl.9 a Lilly Wheeler Sexton bl.8 yn y naid hir ac Eliza Prica bl.8 ac Alex Halliday bl.9 yn y naid uchel.

I gloi Gŵyl y Garth, cafodd yr ysgol yr Eisteddfod flynyddol. Bu'r cystadlu'n frwd eleni eto ac roedd popeth a oedd ar y llwyfan yn safonol iawn. Llongyfarchiadau i Lys Owain ar ennill yr Eisteddfod ac i Branwen Roberts bl.12 ar ennill y gadair hŷn ac i Chloe Stacey bl.9 ar ennill y gadair iau gyda cherddi arbennig o dda. Diolch i Stephanie ac i Leon o'r Urdd am feirniadu ar y diwrnod ac i Cynan Llwyd am feirniadu'r gwaith llenyddol.

Spelling Bee
Mae rhai o ddisgyblion blwyddyn 7 wedi bod yn rhan o gystadleuaeth y Spelling Bee Ffrangeg eleni sydd yn cael ei threfnu yn flynyddol gan Lwybrau at Ieithoedd Cymru. Dyma eiriau Annwylun Pike a fu'n cynrychioli'r ysgol, ynghyd â Seren Collier, yn y rownd derfynol genedlaethol yn Aberystwyth.
"Roedd cystadleuaeth y Spelling Bee yn brofiad anhygoel. Roedd yn gyfle i ymestyn ein geirfa a hefyd gwella ein sgiliau ieithyddol. Roedd y rownd gyntaf yn y dosbarth - ffordd grêt o gael y dosbarth i ddysgu 50 gair Ffrangeg! Yn dilyn hyn roedd dwy rownd arall cyn fy mod i a Seren yn teithio i Aberystwyth ar gyfer y rownd derfynol i gael ein profi ar 200 o eiriau Ffrangeg! Roedd y profiad yn arbennig ac yn hynod ddiddorol.

Ysgol Gyfun Garth Olwg (parhad)

Mission Discovery (tudalen 11)

Her Gwyddorau Bywyd

Llwyddodd disgyblion Garth Olwg i gyrraedd rownd gynderfynol cystadleuaeth genedlaethol o'r enw 'Her Gwyddorau Bywyd'. Prifysgol Caerdydd sydd yn ei redeg ac mae ar agor i bob disgybl ym mhob ysgol yng Nghymru. Roedd rhaid yn gyntaf gwneud y cwis 'ar-lein' yn erbyn ysgolion eraill ac roedd y timau gyda'r sgôr uchaf yn cael eu dewis i herio ei gilydd.

Daeth Ysgol Gyfun Gwyr atom fis diwethaf lle llwyddodd tîm Garth Olwg i ennill a sicrhau lle yn y rownd gynderfynol. Yn anffodus, colli oedd yr hanes yn y rownd gynderfynol yn erbyn Ysgol y Preseli. Er, roedd yn llwyddiant ysgubol i gyrraedd mor bell. Y tîm oedd Jake Spencer, Elis Cope, Georgia MacPhail ac Isabell Price. Diolch am eu cyfraniad.

Taith yr adran Fioleg i Sir Benfro

Ar ddechrau Gorffennaf aeth criw o ferched blwyddyn 10 a 4 aelod o'r chweched i Sir Benfro. Gwnaethant amryw o weithgareddau gan gynnwys ceufadu, coasteering, taith ar gwch gwib o amgylch Ynys Ramsey, taith i weld ystlumod Tŷ Ddewi a sesiwn sgiliau awyr agored. Roedd pawb wedi cael amser wrth eu boddau.

Arddangosfa Gwaith Celf a Ffotograffiaeth Blwyddyn 12 a13

Gwelwyd ystod o waith o safon uchel yn yr Arddangosfa yn yr Adran Gelf eleni, gyda'r disgyblion yn dangos llu o sgiliau. Llongyfarchiadau i chi gyd, diolch am eich ymdrechion trwy gydol y flwyddyn, edrychwn ymlaen at y canlyniadau.

Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

Gwynfor Dafydd gyda'i Gadair

Mellten

Gwobr Treftadaeth

Tatws o ardd yr ysgol

Arosfan Gabrielle

Arosfan Holly a Lowri

Ysgol Dolau (tudalen 11)

Hufen-iâ i ddiolch i bawb

Y Sioe Oliver

Ellie O'Connell yn gwella

Ymweliad Techniquest

Daeth Techniquest i'r ysgol i wneud gweithdai gyda disgyblion blwyddyn 7 a 9. Roedd y disgyblion wedi mwynhau'r gweithdai Mathemateg a chael hwyl wrth ddysgu.

Ysgol Llanhari (o dudalen 6)

Mabolgampau'r Adran Uwchradd

Gweithgareddau Chwaraeon yr Urdd

Taith i Sain Ffagan

Diolch i dîm pêl-droed Cymru

Taith i Ynys y Barri

Cyngerdd haf yr Adran Gerdd

Penwythnos Glanllyn